# Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010

**2010 mccc 3**

**7 Dirprwyo ac is-gwmnïau**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, i unrhyw raddau ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau ag y gwelant yn dda, ddirprwyo unrhyw un neu fwy o'u swyddogaethau o dan y Mesur hwn (nad ydynt yn swyddogaethau sydd wedi eu heithrio) i unrhyw berson.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru gaffael neu sefydlu is-gwmnïau i wneud unrhyw un neu fwy o'u dyletswyddau o dan y Mesur hwn (nad ydynt yn swyddogaethau sydd wedi eu heithrio).

(3) Mae unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â'r canlynol yn swyddogaeth sydd wedi ei heithrio—

(a) gwneud rheoliadau neu orchmynion;

(b) rhoi cyfarwyddiadau.

(4) Caniateir i ddirprwyad o dan is-adran (1) gael ei amrywio neu ei ddirymu ar unrhyw adeg.

(5) Ni fydd unrhyw gytundeb neu drefniant o dan yr adran hon a wneir gan Weinidogion Cymru i ddirprwyo swyddogaeth, neu i drefnu bod is-gwmni yn cyflawni swyddogaeth, yn atal Gweinidogion Cymru rhag arfer y swyddogaeth os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus iddynt wneud hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 18(2)**

**I2** A. 7 mewn grym ar 1.4.2012 gan O.S. 2011/2802, **ergl. 2(2)** (ynghyd ag erglau. 3, 4)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010, Adran 7.